

## **Closure of the Biodiversity Action Reporting System (BARS)**

### **Wales**

The UK BARS partnership (Defra, Natural England, Northern Ireland Environment Agency, Scottish Natural Heritage, Wales Biodiversity Partnership, and Joint Nature Conservation Committee) has taken the difficult decision to discontinue support for BARS. The remaining members (including the Welsh representative, the Wales Biodiversity Partnership) were unable to meet the shortfall in funding this would leave in the short term and therefore the partnership took the decision to close BARS. The system will close on the 30<sup>th</sup> November 2016 allowing sufficient time to repatriate and safeguard all existing data on the system to registered organisations. Wales Biodiversity Partnership will explore options for alternative reporting mechanisms before and after the closure of BARS.

### **Key Messages**

1. BARS is a bespoke standardised action reporting system designed for use by organisations and partnerships across the UK; however since its re-launch to introduce improvements in 2012 the system has been used inconsistently by organisations across the UK.
2. The Wales Biodiversity Partnership (and from time to time Natural Resources Wales) have invested in BARS, promoted and supported its use and provided advice on development requirements over the years.
3. The Welsh Government and Wales Biodiversity Partnership will continue to support processes and mechanisms to capture and manage data on biodiversity – on the status of species, the extent and condition of important habitats, and on land areas being restored to important habitats – so that we can report against EU Habitats Directive requirements, the Convention on Biological Diversity (CBD) and the Nature Recovery Plan.
4. An alternative to BARS (as is) is being investigated for action recording, in order to make the all-important connection between biodiversity intervention and outcome.

### **1. What is BARS?**

The Biodiversity Action Reporting System (BARS) is a public facing web based information system created and used to support the conservation community. It enables users to record the type and location of practical actions to restore, manage or protect habitats and species as well as a range of many other activities that support biodiversity such as education and awareness-raising. It is free at the point of use to organisations who register on the system.

BARS was originally developed to provide a framework for reporting progress against UKBAP as a means for organisations and partnerships to share their Biodiversity Action Plans; although UKBAP closed in 2011, BARS has continued and provides the following key benefits:

- BARS enables an action to be captured once and used to inform any number of different plans and reports at different levels. It supports a partnership approach by sharing information widely and enabling collaborations.
- The means to capture standardised measurable and geographically located data to help support progress reporting such as for Welsh Local Biodiversity Partnerships, for grant funded projects and to feed into local and national pictures.

- Information to support local delivery partners so that they had an overview of organisational and partnership activity taking place at different stages at their areas.

## **2. If BARS provided these benefits, why are you stopping the funding?**

Country biodiversity strategies are increasingly focused on outcome measures and limited resources are being concentrated on alternative techniques (such as remote sensing) and other systems. In Wales, WBP are exploring options for alternative reporting mechanism following the closure decision of the UK level BARS.

BARS, however, is only as good as the information it holds - there has been limited and variable usage of BARS in Wales leading to an incomprehensive picture of biodiversity action being delivered. Limitations such as limited spatial mapping capability, integration with other systems and inability to add actions to grouped species e.g. pollinators have been identified.

## **3. Reporting on biodiversity action?**

The Welsh Government and Wales Biodiversity Partnership recognise the importance of recording biodiversity action for reporting and monitoring progress towards a local and national picture of activity.

### **Aichi targets**

The first report on Aichi Target development is due in September 2016. Targets requiring biodiversity data include Target 5 and 15.

Target 5: By 2020, the rate of loss of all natural habitats, including forests, is at least halved and where feasible brought close to zero, and degradation and fragmentation is significantly reduced.

Target 15: By 2020, ecosystem resilience and the contribution of biodiversity to carbon stocks has been enhanced, through conservation and restoration, including restoration of at least 15 percent of degraded ecosystems, through contributing to climate change mitigation and adaption and to combating desertification.

### **Nature Recovery Plan for Wales**

The Nature Recovery Plan for Wales is aimed at addressing the underlying causes of biodiversity loss by putting nature at the heart of our decision-making, increasing resilience of our natural environment and taking specific action for habitats and species. A set of indicators will be generated to measure the progress of the Nature Recovery Plan against its objectives. Increased monitoring of local action will be critical to informing intervention and monitoring success.

### **Local Delivery e.g. Local Biodiversity Partnerships**

We still want to know what is being delivered on the ground to help us understand progress for habitats and species. We will work with key partners and stakeholders to ensure we establish a means for organisations and partnerships to share and access information on activities.

### **Grant funding**

Some funders across the UK have embedded a requirement to record activity in BARS and this has helped understand some contributions towards the local and national picture of

biodiversity action. UK partners, including WBP will communicate to funders to help repatriate data and to establish a means of capturing contributions to relevant biodiversity outcomes to ensure we continue to understand the contribution of the grant funding sector in supporting the delivery of biodiversity outcomes in the short and long term.

#### 4. What happens now?

The Welsh Government and Wales Biodiversity Partnership will continue to support processes and mechanism to capture and manage data on biodiversity. We are exploring options going forward and will keep BARS users informed as these develop.

We are currently assessing options including a Wales-only Biodiversity Action Reporting System and exploring the extent to which the Atlas of Living Wales can capture and store action data.

A pilot development of the Atlas has been undertaken in Scotland. The NBN Trust has begun work with Welsh stakeholders to develop an Atlas of Living Wales. The initial purpose of the Atlas of Living Wales is to bring together and visually display Welsh species and habitat data. Scottish Natural Heritage (SNH), in conjunction with the NBN Trust and other partners in Scotland, is exploring the MERIT (Monitoring Evaluation Reporting and Improvement) and Biocollect module of the Atlas platform to capture biodiversity action data. We will be working with SNH, the NBN Trust and the Atlas of Living Wales Steering Group to explore this option further.

#### **Your views are important to us**

Please help us during this process by completing a short survey about recording biodiversity action in Wales.

[www.surveymonkey.co.uk/r/T6HJXW7](http://www.surveymonkey.co.uk/r/T6HJXW7)

#### 5. What will happen to the data currently stored in BARS?

BARS will close 30<sup>th</sup> November 2016 and data will no longer be accessible there. The following data repatriation options are available to users:

- All organisations will be able to download an archive of their own data (including spatial locations) extracted from BARS. Organisation administrators will be sent a link to their own archive. These organisation downloads will be available online from JNCC from early December until 31<sup>st</sup> March 2017.
- All data supplied to BARS will be archived securely by JNCC.
- Users may wish to also run **project and action reports** directly from BARS before closure. Reports can be filtered according to criteria such as location, date and type, and exported to Excel, Word and PDF. For step by step guidance on running Project and action reports, please see the videos and PDF guides under 'Help' (<http://ukbars.defra.gov.uk/help>) or contact WBP for assistance.

#### 6. Contact

For further information, questions and assistance please contact Holly York, Wales Biodiversity Partnership ([hyork@wtwales.org](mailto:hyork@wtwales.org)).

## Cau'r System Cofnodi Gweithredu Bioamrywiaeth (BARS)

### Cwestiynau ac Atebion Cymru

Mae partneriaeth BARS y DU (Defra, Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Scottish Natural Heritage, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)) wedi gwneud penderfyniad anodd i roi'r gorau i gefnogi BARS. Bydd y system yn cau ar 30<sup>ain</sup> Tachwedd 2016 gan roi digon o amser i ddychwelyd a diogelu'r holl ddata presennol ar y system i'r sefydliadau cofrestredig. Bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer cyfryngau cofnodi eraill cyn cau BARS.

#### Prif Negeseuon

1. Mae BARS yn system bwrsadol a safonol ar gyfer cofnodi gweithredu sydd wedi'i chynllunio i'w defnyddio gan sefydliadau a phartneriaethau ledled y DU. Fodd bynnag, ers ail-lansio'r system i gyflwyno gwelliannau yn 2012, mae'r defnydd ohoni wedi bod yn anghyson gan sefydliadau ledled y DU.
2. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (ac, o dro i dro, Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi buddsoddi yn BARS, wedi hybu a chefnogi ei ddefnydd ac wedi darparu cyngor ar y gofynion datblygu dros y blynyddoedd.
3. Bydd Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn parhau i gefnogi prosesau a chyfryngau i gasglu a rheoli data am fioamrywiaeth - am statws rhywogaethau, am raddfa a chyflwr cynefinoedd pwysig, ac am diroedd sy'n cael eu hadfer i fod yn gynefinoedd pwysig - fel ein bod yn cofnodi yn erbyn gofynion Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr UE, y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Cynllun Adfer Natur.
4. Mae opsiwn arall yn lle BARS (fel y mae) yn cael ei ymchwilio ar gyfer cofnodi, er mwyn gwneud y cyswllt hollbwysig rhwng ymyriadau a chanlyniadau bioamrywiaeth.

#### 1. Beth yw BARS?

Mae'r System Cofnodi Gweithredu Bioamrywiaeth (BARS) yn system wybodaeth ar y we ar gyfer y cyhoedd a gafodd ei chreu ac sy'n cael ei defnyddio i gefnogi'r gymuned gadwraeth. Mae'n galluogi defnyddwyr i gofnodi math a lleoliad camau gweithredu ymarferol i adfer, rheoli neu warchod cynefinoedd a rhywogaethau, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau eraill sy'n cefnogi bioamrywiaeth, fel addysg a chodi ymwybyddiaeth. Mae am ddim i'w defnyddio i sefydliadau sy'n cofrestru ar y system.

Datblygwyd BARS yn wreiddiol i ddarparu fframwaith ar gyfer cofnodi cynnydd yn erbyn UKBAP fel cyfrwng i sefydliadau a phartneriaethau rannu eu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ac er i UKBAP gau yn 2011, mae BARS wedi parhau ac mae'n darparu'r manteision allweddol canlynol:

- Mae BARS yn galluogi cofnodi gweithred unwaith a'i defnyddio fel sail i nifer o gynlluniau ac adroddiadau amrywiol ar wahanol lefelau. Mae'n cefnogi gwaith partneriaeth drwy rannu gwybodaeth yn eang a galluogi cydweithredu.
- Cyfrwng i gasglu data mesuradwy a lleol yn ddaearyddol i helpu i gefnogi cynnydd y cofnodi fel ar gyfer Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol Cymru, ar gyfer prosiectau a gyllidur gan grantiau ac i greu darlun lleol a chenedlaethol.

- Gwybodaeth i gefnogi partneriaid cyflawni lleol fel bod ganddynt drosolwg o'r gweithgarwch lleol sy'n digwydd mewn sefydliadau a phartneriaethau mewn gwahanol gyfnodau yn eu hardaloedd.

## **2. Os yw BARS wedi darparu'r manteision hyn, pam ydych chi'n rhoi'r gorau i gyllido?**

Mae strategaethau bioamrywiaeth y gwledydd yn canolbwyntio mwy a mwy ar fesurau canlyniad ac mae adnoddau cyfyngedig yn canolbwyntio ar dechnegau amgen (fel synhwyro o bell) a systemau eraill. Yng Nghymru, mae PBC yn edrych ar opsiynau ar gyfer cyfrwng cofnodi pellach yn dilyn y penderfyniad i gau BARS ar lefel y DU.

Fodd bynnag, dim ond cystal â'r wybodaeth mae'n ei dal yw BARS - mae'r defnydd o BARS yng Nghymru wedi bod yn gyfyngedig ac yn amrywiol, gan arwain at gyflwyno darlun anghyflawn o weithredu er lles bioamrywiaeth. Mae cyfyngiadau fel gallu mapio gofodol cyfyngedig, integreiddio gyda systemau eraill ac anallu i ychwanegu camau gweithredu at rywogaethau wedi'u grwpio e.e. peillwyr, wedi cael eu datgan.

## **3. Cofnodi gweithredu er lles bioamrywiaeth?**

Mae Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cofnodi gweithredu er lles bioamrywiaeth er mwyn adrodd ar gynnydd tuag at ddarlun lleol a chenedlaethol o weithgarwch a'i fonitro.

### **Targedau Aichi**

Bydd yr adroddiad cyntaf ar ddatblygu Targed Aichi yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2016. Mae'r targedau sydd angen data bioamrywiaeth yn cynnwys Targedau 5 a 15.

Targed 5: Erbyn 2020, mae'r gyfradd o golli'r holl gynefinoedd naturiol, gan gynnwys fforestydd, wedi'i haneru o leiaf ac, os yw hynny'n bosib, yn agos at sero, a'r diraddio a'r darnio'n sylweddol is.

Targed 15: Erbyn 2020, mae cadernid ecosystemau a chyfraniad bioamrywiaeth at stociau carbon wedi gwella, drwy gadwraeth ac adfer, gan gynnwys adfer o leiaf 15 y cant o'r ecosystemau sydd wedi'u diraddio, drwy gyfrannu at liniaru ac addasu newid hinsawdd a threchgu troi tir yn ddiffaith.

### **Cynllun Adfer Natur ar gyfer Cymru**

Nod y Cynllun Adfer Natur ar gyfer Cymru yw rhoi sylw i'r achosion sy'n sail i golli bioamrywiaeth drwy osod natur wrth galon ein penderfyniadau, gwella cadernid ein hamgylchedd naturiol a gweithredu mewn ffordd benodol er lles cynefinoedd a rhywogaethau. Bydd cyfres o ddangosyddion yn cael ei chreu i fesur cynnydd y Cynllun Adfer Natur yn erbyn ei amcanion. Bydd monitro cynyddol ar weithredu lleol yn allweddol i roi gwybodaeth am lwyddiant ymyriadau a monitro.

### **Cyflawni yn Lleol e.e. Partneriaeth Bioamrywiaeth Leol**

Rydym dal eisiau gwybod beth sy'n cael ei wneud ar y tir i'n helpu ni i ddeall y cynnydd er lles cynefinoedd a rhywogaethau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau ein bod yn sefydlu cyfrwng i sefydliadau a phartneriaethau rannu a chael gafael ar wybodaeth am weithgareddau.

### **Arian grant**

Mae rhai cyllidwyr ledled y DU wedi ymgorffori gofyniad i gofnodi gweithgarwch yn BARS ac mae hyn wedi helpu i ddeall rhai cyfraniadau tuag at y darlun lleol a chenedlaethol o weithredu er lles bioamrywiaeth. Bydd partneriaid y DU, gan gynnwys PBC, yn cyfathrebu gyda chyllidwyr i helpu i ddychwelyd data ac i sefydlu cyfrwng ar gyfer cofnodi cyfraniadau at ganlyniadau bioamrywiaeth perthnasol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddeall cyfraniad y sector arian grant o ran cefnogi creu canlyniadau bioamrywiaeth yn y tymor byr a'r tymor hir.

#### 4. Beth sy'n digwydd nawr?

Bydd Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn parhau i gefnogi prosesau a chyfryngau i gasglu a rheoli data ar fioamrywiaeth. Rydym yn edrych ar opsiynau wrth symud ymlaen a byddwn yn rhoi gwybodaeth gyson i ddefnyddwyr BARS wrth i'r rhain ddatblygu.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu opsiynau, gan gynnwys System Cofnodi Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru yn unig ac i ba raddau y gall Atlas Cymru Fyw gasglu a storio data gweithredu.

Mae peilot o'r Atlas wedi cael ei ddatblygu yn yr Alban. Mae Ymddiriedolaeth NBN wedi dechrau gweithio gyda rhanddeiliaid Cymru i ddatblygu Atlas Cymru Fyw. Pwrpas cychwynol Atlas Cymru Fyw yw dod â data am rywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru at ei gilydd a'u harddangos yn weledol. Mae Scottish Natural Heritage (SNH), ar y cyd ag Ymddiriedolaeth NBN a phartneriaid eraill yn yr Alban, yn edrych ar fodiwlau MERIT (Monitro, Gwerthuso, Adrodd a Gwella) a Biocollect llwyfan yr Atlas i gasglu data am weithredu er lles bioamrywiaeth. Byddwn yn gweithio gyda SNH, Ymddiriedolaeth NBN a Grŵp Llywio Atlas Cymru Fyw i edrych ar yr opsiwn hwn ymhellach.

#### Mae eich barn chi'n bwysig i ni

Helpwch ni yn ystod y broses hon os gwelwch yn dda drwy lenwi arolwg byr am gofnodi gweithredu er lles bioamrywiaeth yng Nghymru.

[www.surveymonkey.co.uk/r/HC9QCRL](http://www.surveymonkey.co.uk/r/HC9QCRL)

#### 5. Beth fydd yn digwydd i'r data sy'n cael eu cadw yn BARS ar hyn o bryd?

Bydd BARS yn cau ar 30<sup>ain</sup> Tachwedd 2016 ac ni fydd y data ar gael yno wedyn. Mae'r opsiynau dychwelyd data canlynol ar gael i ddefnyddwyr:

- Bydd pob sefydliad yn gallu lawrlwytho archif o'i ddata ei hun (gan gynnwys lleoliadau gofodol) a dynnir o BARS. Bydd gweinyddwyr sefydliadau'n derbyn dolen at eu harchif hwy eu hunain. Bydd lawrlwythiadau'r sefydliadau hyn ar gael ar-lein gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) o ddechrau mis Rhagfyr tan 31<sup>ain</sup> Mawrth 2017.
- Bydd yr holl ddata a gyflenwir i BARS yn cael ei archifo'n ddiogel gan JNCC.
- Hefyd efallai y bydd y defnyddwyr yn dymuno cynnal **cofnodion prosiect a gweithredu** yn uniongyrchol o BARS cyn cau. Mae posib dosbarthu'r cofnodion yn ôl meini prawf, fel lleoliad, dyddiad a math, a'u hallforio i Excel, Word a PDF. Am gyfarwyddyd cam wrth gam ar gynnal cofnodion prosiect a gweithredu, edrychwch ar y fideos a'r canllawiau PDF o dan 'Help' (<http://ukbars.defra.gov.uk/help>) neu cysylltwch â PBC am gymorth.

## **6. Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth, i holi cwestiynau ac am gymorth, cysylltwch â Holly York, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ([hyork@wtwales.org](mailto:hyork@wtwales.org)).